# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Medi yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 o'r gloch y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); R Fairhead a K Roberts (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); Ll Gutierrez-Jones (Rheolwr Adnoddau Dynol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| C Everett | Clerc |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MEHEFIN 2018

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 18 Mehefin eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Y Tîm Cymorth Cymunedol – er nad oedd y mater yn ymwneud yn uniongyrchol â'r tîm cymorth cymunedol, dywedodd y PST wrth yr aelodau fod cwestiwn wedi cael ei ofyn yn y Senedd am ddyfodol 'cyd-ymateb' a bod ymateb ysgrifenedig wedi cael ei ddarparu; roedd copi o'r ymateb ar gael i'r aelodau yn y cyfarfod.

3.2 Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20 – roedd y ddogfen ymgynghori wedi cael ei chyhoeddi, ac roedd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Cynorthwyol wedi mynychu cyfarfodydd y cyngor yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ac roedd trefniadau wedi cael eu gwneud i ymweld â phob cyngor yng Ngogledd Cymru erbyn diwedd mis Hydref.

3.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng mis Mehefin a mis Medi 2018 fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD YR AWDURDOD 2017/18

6.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad ATAGC yn ystod 2017/18 mewn perthynas â'i amcanion gwella a llesiant, ei amcanion cydraddoldeb a'i gydymffurfiaeth â safonau perthnasol y Gymraeg.

6.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif cyhoeddus o'i berfformiad, ei gynnydd a'i gydymffurfiaeth â gwahanol ddeddfwriaeth yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd dogfen yr asesiad blynyddol yn cyfuno'r holl elfennau angenrheidiol er mwyn cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth ganlynol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

6.3 Roedd yr Aelodau'n canmol y swyddogion am ymgorffori'r holl wybodaeth mewn un ddogfen gynhwysfawr a **PHENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn ystod 2017/18 (yn dibynnu ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen) i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30 Medi 2018; a**

**(ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi taflen i'w dosbarthu'n gyffredinol cyn diwedd mis Rhagfyr 2018, i roi crynodeb o elfennau allweddol yr asesiad.**

7 DATGANIAD O GYFRIFON 2017/18

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd y datganiad o gyfrifon a archwiliwyd am 2017/18, gan gynnwys y datganiad llywodraethu i'w gymeradwyo gan yr aelodau; nodwyd bod y ddwy ddogfen wedi bod yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflwynwyd canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd fel rhan o'r adroddiad.

7.2 Nodwyd bod y Pwyllgor wedi ystyried yr holl wybodaeth yn fanwl yn ei gyfarfod ar 10 Medi; nid oedd gan yr aelodau a oedd yno unrhyw bryderon na sylwadau pellach i'w gwneud, ac roeddent yn argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010, rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi.

7.3 Cadarnhaodd y PSC MacArthur fod y rheolwyr, yn dilyn yr archwiliad o'r cyfrifon, wedi cytuno i gywiro pob un heblaw dau o'r camddatganiadau a nodwyd, ond cadarnhaodd y bydd y rhain yn cael eu haddasu yn natganiad o gyfrifon 2019/20 gydag esboniad llawn.

7.4 Rhoddodd Amanda Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru drosolwg o ddogfen yr archwiliad o ddatganiadau ariannol gan gynnwys y sylwadau sydd yn y Llythyr Cynrychiolaeth. Nodwyd bod y cyfrifon drafft a'r datganiad llywodraethu wedi cael eu cyflwyno ar 1 Mehefin 2018 i'w harchwilio. Roedd y rhain yn cadarnhau sefyllfa'r alldro drafft sef £33.329m o wariant net, a oedd yn arwain at £93,083 o gyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw'r sefyllfa derfynol a archwiliwyd wedi newid.

7.5 Cyfeiriodd Ms Hughes at y ffaith eu bod wedi canfod problem gyda'r taliadau pensiwn wrth archwilio cyfrifon pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru ac rydym wrthi'n cael cyngor cyfreithiol am y mater cymhleth hwn. Rhoddodd y PSC MacArthur sicrwydd i'r aelodau fod y tri ATA yng Nghymru hefyd yn cael cyngor cyfreithiol ar y mater pensiwn a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf unwaith y bydd y mater wedi'i ddatrys.

7.6 Cadarnhaodd Ms Hughes y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol, ond dim ond ar ôl datrys y mater pensiwn y rhoddir tystysgrif.

7.7 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon a datganiad llywodraethu blynyddol 2017/18;**
**(ii) nodi'r adroddiad a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol;**
**(iii) cymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth**

Ar yr adeg hon, cafodd yr aelodau wybod na fydd Sandra Forrest yn gweithio i'r Awdurdod mwyach oherwydd bod dyletswyddau'n cael eu hailddyrannu o fewn CBS Conwy. Roedd y Trysorydd yn dymuno cofnodi ei ddiolch personol i Ms Forrest am ei chyfraniad a'i hymrwymiad wrth ei gynorthwyo ef â gwaith yr Awdurdod ers 1998.

8 ALLDRO AMCANOL 2018/19

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi amcangyfrif o alldro amcanol ATAGC am flwyddyn ariannol 2018/19.

8.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb refeniw o £34.1m yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2017. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad o £646,700 o'r cronfeydd wrth gefn. Ar 31 Awst 2018, yn ôl y rhagolygon presennol bydd angen y dyraniad cyllideb llawn gan gynnwys y cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn. Nodwyd y bydd i angen i wariant o fewn y gyllideb reoli nifer o bwysau costau, gan gynnwys rhai'n deillio o gynnydd yn y lefel y gweithgarwch.

8.3 O ran y gyllideb gyfalaf, roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf o £4.9m yn Rhagfyr 2017 ac roedd honno wedi cynyddu i £5.9m ar gyfer prosiectau sy'n weddill ers 2017/18. Rhagwelir mai £3.4m fydd gwariant cyfalaf y flwyddyn lawn, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod amseriad nifer o brosiectau wedi cael ei ad-drefnu.

8.4 Fe wnaeth y PSC MacArthur esbonio'r pwysau costau sy'n gysylltiedig â TGCh, a oedd yn cynnwys cost weithredol sylweddol yn gysylltiedig ag anfon criwiau a chyfarpar TG ar beiriannau ac i safleoedd tanau. Mae yna risgiau ariannol a risgiau'n gysylltiedig â diogeledd seiber, a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fanwl yn ystod y drafodaeth wrth gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2019/20.

8.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi bod yr Awdurdod yn rhagweld y bydd yn llawn ddefnyddio ei gyllideb refeniw, sef £34.1m yn 2018/19; a**
**(ii) nodi bod yr Awdurdod yn rhagweld £3.4m o wariant cyfalaf yn 2018/19 o gymharu â'r cynllun, sef £5.9m.**

9 GRŴP Y GWASANAETH TÂN CYNHWYSOL

9.1 Cyflwynodd y Cynghorydd Sue Lloyd-Williams yr adroddiad ar waith Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol. Mewn cyfarfod o'r Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf, enwebwyd y Cyng. Lloyd-Williams yn aelod i arwain y gwaith hwn.

9.2 Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd tuag at gyflawni'r strategaethau gwella a argymhellwyd gan Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol (IFSG) Cyd-Gyngor Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol (NJC).

9.3 Dywedodd y Cyng. Lloyd-Williams fod gwaith rhagorol wedi cael ei wneud eisoes yn y Gwasanaeth, gan gynnwys hyfforddiant i rai aelodau o'r staff i ddod yn Hyrwyddwyr Golau Glas Mind i gefnogi unigolion â phroblemau iechyd meddwl. Diolchodd y Cynghorydd i'r staff am eu gwaith yn hybu'r strategaethau a fydd yn dda i iechyd a lles holl staff GTAGC.

9.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

10 Y TREFNIADAU CYLLID A LLYWODRAETHU AR GYFER ATAau YNG NGHYMRU

10.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y datblygiadau o ran cynigion Ysgrifennydd y Cabinet i newid y trefniadau cyllid a llywodraethu ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

10.2 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'n arbennig yr ohebiaeth ddiweddaraf a ddaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet, sef lle oedd wedi cynnig cynnal trafodaethau pellach rhwng ei swyddogion ef a swyddogion y tri ATA. Cafodd yr Aelodau gyfle i fynegi eu barn am y cynnig hwn ac ystyried pa faterion y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

10.3 Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith ar y mater hyd yma, ac roeddent yn cytuno y dylai'r swyddogion barhau â'r gwaith da.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a derbyn cynnig Ysgrifennydd y Cabinet i gael cyfarfod rhwng ei swyddogion ef a swyddogion yr ATA.**

11 RHEOLI'R TRYSORLYS, A DANGOSYDDION DARBODUS

11.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am reoli'r trysorlys yn yr Awdurdod, ac am y dangosyddion darbodus. Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn y cyfarfod ar 10 Medi 2018, wedi adolygu'r cynnwys yn fanwl, nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau o bwys, nid oeddent yn gallu gweld unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad ac roeddent yn argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

11.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dangosyddion darbodus a ddiwygiwyd fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

12 DYFARNIAD CYFLOGAU PRIF SWYDDOGION 2018

12.1 Gofynnwyd i'r aelodau gefnogi'r cytundebau am y dyfarniad cyflogau Prif Swyddogion yn 2018. Daethpwyd i'r cytundebau hyn gan Gyd-Gyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol (NJC) ar gyfer y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a gan Bwyllgor Negodi ar y Cyd Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol (JNC) ar gyfer y Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd.

12.2 Mae'r cyrff negodi wedi dod i'r ddau gytundeb canlynol ar gyfer 2018:

- mae Cyd-Gyngor yr NJC wedi cytuno ar ddull yn seiliedig ar ddau gam, sy'n cynnwys 1% o gynnydd o 1 Ionawr 2018 ymlaen, yn codi i 2% o 1 Gorffennaf 2018 ymlaen. Mae'r cytundeb hwn yn gymwys i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol.

- mae'r Pwyllgor y JNC wedi cytuno ar 2% o ddyfarniad o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r cytundeb hwn yn gymwys i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd.

12.3 **PENDERFYNWYD cefnogi'r penderfyniadau a nodir uchod.**

13 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017-18

13.1 Cyflwynodd y PSC MacArthur adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol a oedd yn nodi gwaith y bwrdd yn ystod 2017/18.

**13.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol am 2017/18 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

14 SWYDD WAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU

14.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc wybod i'r aelodau fod cyfnod swydd un o aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi dod i ben ar 31 Awst 2018; felly bydd angen i'r Awdurdod recriwtio un aelod annibynnol. Mae gan Gyngor Gwynedd swydd wag ar ei Bwyllgor Safonau hefyd ac yn ysbryd cydweithio ac arbed arian ar y broses recriwtio cytunwyd y bydd ATAGC a Chyngor Gwynedd yn rhannu cost hysbysebu'r swydd mewn dau bapur newydd, ond byddant yn cynnal prosesau ar wahân i ddethol a chyfweld.

14.2 Nodwyd bod llythyr wedi cael ei anfon at David Morris i ddiolch iddo am ei waith dros yr wyth mlynedd ddiwethaf, gan fod cyfnod ei swydd wedi dod i ben.

14.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**